

## Sut i ddefnyddio UNRHYW BETH i wneud set o ddrymiau

Gall **unrhyw beth** yn llythrennol fod yn set o ddrymiau. Os yw'n gwneud sŵn pan fyddwch yn ei guro, yna gallwch ei ddefnyddio. Ond i chi wneud yn siŵr nad oes modd ei dorri, nad yw'n ddrud, nac yn fyw! Pa wrthrychau bynnag y penderfynwch eu defnyddio, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio gyda rhywun ei bod yn iawn ei ddefnyddio cyn I chi ddechrau drymio ag ef!

### Syniadau ar gyfer gwneud eich Set Ddrymiau Unigryw...

- Y Drymiau:
  - Sosbenni a Phadelli
  - Bocsys Cardfwrdd
  - Platiau a Phowlenni Plastig
  - Arwynebau (fel Bwrdd)
  - Waliau, Lloriau, Drysau a Chadeiriau
  - Cyllyll a Ffyr a Llwyau Metel
  - Allweddi – Ceisiwch eu hysgwyd!
  - Ffoil alwminiwm – gallwch ddefnyddio Sellotape i roi hwn dros rywbeth a'i fwrw (fel bocsbord) neu ei wasgu'n fach i wneud sŵn gwahanol
- Y Ffyn Drymiau:
  - Llwyau Pren
  - Peniau neu Bensiliau
  - Eich bysedd, cledrau eich dwylo, dyrnau, a thraed!

### Pethau i roi cynnig arnynt:

1. **Ise! i Uchel:** Rhwch eich set ddrymiau o'ch cwmpas mewn llinell o'r mwyaf i'r lleiaf. Pa offerynnau sy'n swnio'n is a pha rai sy'n swnio'n uwch?
2. **Hir a Byr:** A oes unrhyw offerynnau yn eich set ddrymiau sy'n gwneud sain *hir* ac oes unrhyw rai'n gwneud sain *byr*? Os ydych yn eu dal i fyny â'ch llaw ac yn eu taro, a ydynt yn gwneud sain hyd yn oed yn hirach? Gwrandewch yn ofalus: am ba mor hir mae'r sain yn para? Os ydych yn gwasgu'ch llaw ar ochr arall un o'ch offerynnau pan fyddwch yn ei daro, beth sy'n digwydd i'r sain?
3. **Uchel a Thawel:** Pa rai o'ch offerynnau sy'n gwneud sŵn uwch a pha rai sy'n dawelach?

### Gemau a Gweithgareddau:

1. **Copïo:** Gyda rhiant, brawd, chwaer, ewythr, taid neu nain, neu hyd yn oed eich ci (os wnân nhw eistedd yn llonydd am gyfnod digon hir!), rhwch gynnig ar chwarae patrwm byr ar eich set ddrymiau iddyn nhw ei gopïo. Rhwch bwynt iddyn nhw am bob un maen nhw'n ei gael yn iawn! Dechreuwch drwy chwarae rhythmau byr iawn, yna gwnewch hi'n anoddach drwy chwarae rhai hirach ...
2. **Ditectifs:** Gyda phartner neu mewn grŵp, gofynnwch i bawb gau eu llygaid wrth i chi daro dim ond un offeryn ar eich set ddrymiau iddynt ei glywed. Wedyn mae'n rhaid iddyn nhw

agor eu llygaid a dyfalu pa offeryn oeddech chi'n ei chwarae! Rhowch gynnig ar gymryd eich tro i weld faint y gallwch ei gael yn iawn ...

3. **Cyd-Chwarae:** Mae yna **gymaint** o ganeuon da y gallwch chi gyd-chwarae gyda nhw ar eich set ddrymiau. Rhowch gynnig ar rai o'r rhain:

- Queen, *We Will Rock You*
- *The Greatest Show o'r 'Greatest Showman'*
- Queen, *Another One Bites the Dust*
- Jimmy Rainsford, *The Drumiverse* (ar YouTube)
- The Lumineers, *Ho Hey*
- *You're Welcome* gan Moana
- *Not Evil* o Lego Movie 2
- *Catchy Song* o Lego Movie 2
- *Everything is Awesome* o Lego Movie

Rydym hefyd wedi anfon rhai o ganeuon Disney y gallwch chi gyd-chwarae iddyn nhw – rhowch gynnig ar weld a allwch chi chwarae'n uchel a thawel fel ni, ac yn araf a chyflym fel ni! Fel her ychwanegol, stopiwch chwarae pan fyddwn ni'n stopio chwarae!

Beth arall y gallech chi gyd-chwarae gydag e? Y radio? Y teledu?